

Amgueddfa Cymru

Polisi ar Fenthyciadau i Mewn

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pobl Cymru. Mae ein dogfen Weledigaeth 2015, *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau*, yn ein hymrwymo i greu arddangosiadau newydd ysbrydoledig. O'r herwydd, gallai'r Amgueddfa fenthycia eitemau gan sefydliadau neu eitemau eraill er mwyn ein galluogi i baratoi arddangosfeydd mwy cynhwysfawr, ehangu'r ddarpariaeth academaidd a darparu mynediad i eitemau na fyddai'n cael eu harddangos mewn sefydliadau cyhoeddus fel arall.

1.2 Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n *Polisi Mynediad at y Casgliadau a'r Defnydd a Wneir Ohonynt* ac yn un rhan o'n Fframwaith Rheoli Casgliadau, ac felly mae'n gweithredu ochr yn ochr â strategaethau a pholisïau cysylltiedig eraill yr amgueddfa a restrir yn ein *Polisi Rheoli Casgliadau*.

2. Amcan

2.1 Mae'r polisi hwn yn esbonio sut y byddwn yn sicrhau bod yr eitemau rydyn ni'n eu benthycia yn cael eu defnyddio'n briodol ac er budd pawb.

3. Diffiniad

3.1 Eitemau sy'n dod i'r Amgueddfa am gyfnod penodol o amser ar gyfer arddangosiad neu waith ymchwil yw benthyciadau i mewn. Bydd eitem ar fenthyciad i mewn yn parhau'n eiddo i'r sefydliad neu unigolyn sy'n benthycia'r eitem i Amgueddfa Cymru.

4. Egwyddorion

4.1 Polisi'r Amgueddfa yw derbyn eitemau ar fenthyciad i mewn at ddibenion arddangos neu ymchwil yn unig.

4.2 Bydd eitemau sy'n dod i'r Amgueddfa fel benthyciad i mewn yn cael yr un lefel o ofal ag eitemau sy'n eiddo i ni.

4.3 Ni fydd eitemau ar fenthyciad i mewn yn cael eu cadw neu eu haddasu mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig y benthyciwr ymlaen llaw.

5. Ystyriaethau Moesegol a Chyfreithiol Penodol

5.1 Byddwn yn gwneud cais am fenthyciadau yn gwbl unol â *Cod Moeseg (2015)* Cymdeithas yr Amgueddfeydd. Byddwn yn ceisio sicrhau arferion gorau yn ein holl weithgareddau drwy gydol yr amser. Byddwn yn cael ein llywio hefyd gan *Smarter Loans; Principles of Lending (2011)* Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

5.2 Dim ond os ydynt yn cydymffurfio â Rheoliadau Protocol (Cydymffurfio) Nagoya 2015 y bydd benthyciadau at ddibenion samplu DNA yn cael eu gwneud.

6. Cais am Fenthyciad

6.1 Byddwn yn sicrhau bod pob cais i gael benthycio eitemau yn cael ei wneud yn amserol ac yn unol ag amserlenni'r sefydliad benthycia perthnasol.

6.2 Diwydrwydd dyladwy: Fel benthyciwr, byddwn yn dangos, hyd eithaf ein gallu, nad oes unrhyw achos rhesymol i gredu bod unrhyw eitem a ddefnyddir ar y cyd ag eitemau'r sawl sy'n benthycio wedi'i dwyn, wedi'i hallforio'n anghyfreithlon na'i mewnfario'n anghyfreithlon o'r wlad wreiddiol, fel y diffiniwyd yng Nghonfensiwn UNESCO ar Ddulliau Gwahardd ac Atal Mewnfario, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon, (1970), a Chonfensiwn UNIDROIT ar Wrthrychau Diwylliannol wedi'u Dwyn neu eu Hallforio'n Anghyfreithlon 1995 a Deddf Prynu a Gwerthu Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003.

6.3 Byddwn yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am drefniadau ffurfiol tollau a darparu trwyddedau allforio ac ati ar gyfer benthyciadau rhyngwladol.

6.4 Byddwn yn sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig sydd wedi'u llofnodi yn eu lle cyn unrhyw fenthyciad. Bydd unrhyw wybodaeth a gasglwn yn ystod y broses ymgeisio yn cael ei defnyddio a'i chadw mewn cysylltiad â hynny ac yn unol â'n polisiau diogelu data a rhyddid gwybodaeth cyfredol.

6.5 Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am yr eitemau a fenthycir yn cael ei chynnal. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'w lleoliad, trefniadau diogelwch a'u lles ffisegol gan gynnwys cofnodion am eu cyflwr a'u hamgylchedd storio neu arddangos. Bydd aelod o'r staff â'r cymwysterau priodol yn cwblhau adroddiad cyflwr pan fydd eitemau'n cyrraedd ac yn gadael yr amgueddfa. Hefyd, byddwn yn llenwi Adroddiad Cyfleusterau ar gyfer benthyciadau arddangosiad neu arddangosfa i mewn.

7. Yswiriant ac Indemniad

7.1 Bydd pris yr eitemau unigol a gynigir i'w benthycio yn cael ei gytuno â'r perchnogion cyn derbyn y benthyciad.

7.2 Gan amlaf byddwn yn cymryd Indemniad y Llywodraeth neu bolisi yswiriant 'ar sail 'hoelen i hoelen' dros gyfnod y benthyciad mewnol, ar lefel y cytunwyd arni yn ystod ein proses ymgeisio, a byddwn yn darparu tystiolaeth o hyn.

7.3 Darperir indemniad ar gyfer benthyciadau i mewn gan sefydliadau ac unigolion sy'n benthycio i'r amgueddfa, wedi'i ddarparu dan delerau Cynllun Indemniad y Llywodraeth (GIS). Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Tystysgrifau Indemniad am gyfnod penodedig.

7.4 Bydd Indemniadau ar gyfer benthyciadau hirdymor cyfredol, ar gyfer eitem sy'n £1,000,000 neu fwy, yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol, fel bod modd adolygu eu prisiant. Bydd benthyciadau o werth is yn cael eu hail-indemnio bob tair blynedd. Bydd yr Amgueddfa yn cael yswiriant masnachol am fenthyciadau adnewyddadwy sy'n werth mwy na'r terfyn GIS cyfredol (£10,000,000).

7.5 O ran benthyciadau mewnol nad ydynt yn gymwys am GIS, byddwn yn cytuno ar drefniadau yswiriant gyda'r sawl sy'n benthycu cyn dechrau'r benthyciad.

8. Defnydd a Diogelu

8.1 Byddwn ni'n gwirio'n rheolaidd ac yn adrodd ar eitemau fel sy'n ofynnol gan y corff sy'n benthycu.

8.2 Ni fyddwn yn cyflawni unrhyw waith cadwraeth nac ymyriad ffisegol arall heb gytundeb ysgrifenedig gan y sawl sy'n benthycu yn gyntaf, ynghylch union gwmpas unrhyw waith a sut y caiff ei gofnodi.

9. Difrod neu Gollod

9.1 Os bydd eitem sydd ar fenthyg i ni yn mynd ar goll, yn cael ei difrodi neu mewn perygl, neu os yw amgylchiadau'r benthyciad yn newid mewn unrhyw ffordd, byddwn yn rhoi gwybod i'r benthyciwr a Llywodraeth Cymru ar unwaith.

9.2 Mewn amgylchiadau eithriadol lle gallai'r deunydd ar fenthyg achosi perygl i ddeunyddiau eraill, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddychwelyd yr eitemau cyn gynted â phosib.

10. Costau a Threuliau

10.1 Byddwn yn talu'r holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r benthyciad fel arfer, ond rhaid cytuno arnynt cyn derbyn y benthyciad.

11. Cyfnod a Therfynu

11.1 Rhaid i bob benthyciad mewnol fod am gyfnod penodol a ddiffinnir cyn dechrau'r benthyciad.

11.2 Bydd unrhyw estyniad i gyfnod y benthyciad yn cael ei drafod gyda'r benthyciwr cyn i gytundeb cyfredol y benthyciad ddod i ben.